

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Polisi Mynediad i Wybodaeth sydd Heb ei Chyhoeddi

Fersiwn:	Fersiwn 5
Dyddiad:	Chwefror 2018
Awdur(on):	Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol
Ymgynghorwyr:	Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth; Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol; Tîm Rheoli Corfforaethol, Tîm Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth
Cymeradwywyd gan:	Cabinet
Amllder adolygu:	Pob 2 flynedd
Dyddiad yr adolygiad nesaf:	Chwefror 2020

A greener place
Man gwyrddach



1. Egwyddorion arweiniol

- 1.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gwerthfawrogi ei wybodaeth fel ased hollbwysig ar gyfer darparu gwasanaethau'n effeithiol. Nod y Cyngor yw darparu cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl ar gyfer ymgynghori ac ailddefnyddio er mwyn hwyluso llywodraeth agored a thryloyw, ac er budd yr economi leol a chenedlaethol.
- 1.2 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo:
- i fod yn agored ac yn dryloyw yn y ffordd y mae'n cynnal ei fusnes, gan annog sefydliadau partner sy'n gweithio yn y gwasanaeth cyhoeddus i wneud yr un peth, i helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus a grymuso dinasyddion;
 - i sicrhau bod cymaint o wybodaeth â phosibl ar gael heb hawlfraint, patentau neu gyfyngiadau rheoli eraill, yn amodol ar delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored, er mwyn meithrin arloesedd yn yr ardal leol a sbarduno twf economaidd;
 - i barchu egwyddorion preifatrwydd a chyfrinachedd tra'n darparu gwybodaeth sydd er budd y cyhoedd, yn unol â chyfreithiau sy'n rheoli'r modd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau;
 - i ddarparu ymateb prydlon, cwrtais a chynhwysfawr i geisiadau am wybodaeth, cyflwyno gwybodaeth mewn iaith glir, mewn fformat sy'n ystyried gwahanol anghenion ac yn rhad ac am ddim lle bynnag y bo'n rhesymol;
 - i ddarparu'r hawl i gwyno os nad yw unigolyn yn fodlon â'r ymateb a gafwyd.

2. Cwmpas y polisi

- 2.1 Mae'r polisi hwn yn amlinellu ymrwymiad y Cyngor i sicrhau bod gwybodaeth heb ei chyhoeddi ar gael yn unol ag egwyddorion llywodraeth agored a'r gyfraith, sy'n cynnwys:
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
 - Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004
 - Cyfraith diogelu data gan gynnwys Deddf 1998, Deddf newydd 2018, a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2016
 - Deddf Economi Ddigidol 2017
 - Deddf Diogelu Rhyddidau 2012
 - Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus 2015
 - Rheoliadau INSPIRE 2009
 - Gorchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007
 - Deddf Mynediad at Wybodaeth 1985
- 2.2 Nid yw'r polisi hwn yn ymdrin â hawliau aelodau etholedig i weld gwybodaeth, gan fod yr hawliau hyn yn dod o dan brotocol o fewn Cyfansoddiad y Cyngor.

- 2.3 Nid yw'r polisi hwn yn ymdrin â rhannu gwybodaeth bersonol â sefydliadau eraill er mwyn darparu gwasanaethau i unigolion. Byddai darpariaethau o fewn y gyfraith diogelu data ynghyd â chytundebau fel Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru yn cwmpasu'r gweithgarwch hwn.

3: Prif Gyfreithiau Mynediad at Wybodaeth

- 3.1 Disgrifir y prif gyfreithiau sy'n cwmpasu mynediad at wybodaeth sector cyhoeddus sydd heb ei chyhoeddi isod. Mae'r cyfreithiau a'r gyfraith achosion hyn yn newid o bryd i'w gilydd, ac mae'r Cyngor yn addasu i'r newidiadau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r gyfraith.
- 3.2 Mewn achosion lle mae ymgeisydd yn gofyn am wybodaeth y mae angen ei hystyried o dan fwy nag un gyfraith mynediad at wybodaeth, bydd ymgeiswyr yn cael gwybod pa wybodaeth sy'n cael ei hystyried o dan ba gyfraith a'r amserlenni perthnasol.

Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

- 3.3 Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn hawl mynediad cyffredinol i wybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Ar ôl derbyn cais a wnaed yn ysgrifenedig, mae gan y Cyngor ddyletswydd i gadarnhau os oes gwybodaeth yn cael ei chadw neu beidio, ac i gyflenwi'r wybodaeth, o fewn 20 diwrnod gwaith fel arfer, cyn belled nad yw eithriad yn berthnasol.
- 3.4 Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth hefyd yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i gyhoeddi categorïau penodol o wybodaeth yn rhagweithiol. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol y Comisiynydd Gwybodaeth ar gyfer Llywodraeth Leol. Gellir dod o hyd i'r Cynllun Cyhoeddi ar wefan y Cyngor, ond gellir dod o hyd i'r wybodaeth a restrir mewn amrywiaeth o fannau fel yr amlinellir yn y cynllun, er enghraifft drwy wefan y Cyngor, mewn llyfrgell neu dderbynfa ein prif adeiladau cyhoeddus.

Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004

- 3.5 Rhaid ymdrin â gwybodaeth a nodir fel 'gwybodaeth amgylcheddol' o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn hytrach na'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r diffiniad o wybodaeth amgylcheddol yn eang iawn, a gall gynnwys gwybodaeth am gyflwr yr amgylchedd e.e. llifogydd; ar fesurau sy'n effeithio ar yr amgylchedd megis polisïau a deddfwriaeth; ac ar gyflwr iechyd a diogelwch pobl, y gadwyn fwyd, strwythurau diwylliannol/adeiledig, llygredd aer ac ati.
- 3.6 Gellir gwneud ceisiadau ar lafar ac yn ysgrifenedig; mewn rhai amgylchiadau gall eithriadau fod yn berthnasol os nad yw o fudd i'r cyhoedd i ddatgelu'r wybodaeth; ac er mai dim ond 20 diwrnod gwaith yw'r amserlen fel arfer, gellir ei hystyried mewn rhai amgylchiadau.

Cyfraith diogelu data

- 3.7 Mae llawer o'r wybodaeth sydd gan y Cyngor yn ddata personol, ac nid yw Rhyddid Gwybodaeth yn sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd.

- 3.8 Mae'r Cyngor yn cymryd ei ddyletswydd gyfreithiol i ddiogelu gwybodaeth bersonol unigolion o ddifrif, a bydd unrhyw gais am wybodaeth sy'n cynnwys data personol yn cael ei ystyried yn ofalus gan gyfeirio at gyfraith diogelu data. Mae hyn yn cynnwys Deddf 1998, Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2016, Deddf Diogelu Data Newydd y DU y disgwylir iddi gael ei gweithredu yn ystod 2018, yn ogystal â dyletswydd cyfrinachedd cyfraith gwlad a'r Ddeddf Hawliau Dynol 1998.
- 3.9 Os bydd unrhyw berson yn dymuno cael mynediad at wybodaeth sy'n cael ei chadw amdanynt ei hun gall wneud Cais Mynediad Pwnc o dan y ddeddf diogelu data.

Ceisiadau arferol am wybodaeth

- 3.10 Gallai enghreifftiau o gais arferol fod yn gais am gopi o ddogfen a gynhyrchwyd gan wasanaeth neu gais am oriau agor neu fanylion gwasanaeth. Ni fydd y Cyngor yn gweithredu'n llawn y gweithdrefnau Rhyddid Gwybodaeth, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol na'r weithdrefn Ddeddf Diogelu Data, ond bydd yn ceisio cydymffurfio â'r terfynau amser statudol.

4: Gwneud cais am wybodaeth

- 4.1 Byddai'r Cyngor yn annog unrhyw unigolyn sy'n ceisio gwneud cais am wybodaeth oddi wrth y Cyngor i ddilyn y canllaw ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth yn www.ico.org.uk. Yn unol â Chod Ymarfer Adran 45 o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, bydd y Cyngor yn rhoi cyngor a chymorth i ymgeiswyr o ran gwneud cais am wybodaeth.
- 4.2 Yn y rhan fwyaf o achosion rhaid i geisiadau am wybodaeth gael eu gwneud yn ysgrifenedig (gan gynnwys e-bost), ond gellir gwneud ceisiadau am wybodaeth amgylcheddol ar lafar. Rhaid i'r cais am wybodaeth gynnwys y canlynol:
- enw a chyfeiriad y gellir anfon ymateb iddo;
 - digon o fanylion i swyddogion allu nodi pa wybodaeth sydd ei hangen - os nad yw'r cais yn cynnwys digon o fanylion, gofynnir am eglurhad gan yr ymgeisydd;
 - yn achos Cais Mynediad Pwnc, mae angen prawf hunaniaeth hefyd.
- 4.3 Gall ymgeiswyr fynegi dewis sut y caiff yr wybodaeth ei chyflenwi a, lle bo hynny'n rhesymol ymarferol, bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r dewis a nodwyd, neu'n rhoi esboniad os nad yw hyn yn bosibl.

5: Gwybodaeth trydydd parti nad yw'n cynnwys data personol

- 5.1 Disgrifir y dull o ymdrin ag unrhyw gais am wybodaeth trydydd parti sy'n bersonol ei natur yn adran 3.3.
- 5.2 Os gofynnir am wybodaeth oddi wrth y cyngor nad yw'n bersonol ac sy'n ymwneud â thrydydd parti, er enghraifft cyflenwr neu sefydliad partner, bydd y cais yn cael ei ystyried gan gyfeirio at eithriadau sydd ar gael o dan gyfraith Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau

Gwybodaeth Amgylcheddol, y mae llawer ohonynt yn gymwys i brawf buddiant y cyhoedd, i farnu a fyddai eu rhyddhau er budd y cyhoedd.

- 5.3 Bydd y Cyngor yn ceisio ymgynghori â thrydydd partion yr effeithir arnynt drwy ddatgelu gwybodaeth cyhyd ag y bo'r amserlenni'n caniatáu, ond y Cyngor fydd yn gorfod gwneud y penderfyniad terfynol.
- 5.4 Bydd contractau/cytundebau sydd yn eu lle rhwng y cyngor a sefydliadau partner yn cynnwys telerau sy'n amlinellu cyfrifoldebau cyfreithiol y Cyngor i ystyried datgelu gwybodaeth pan dderbynnir cais.

6. Codi tâl am wybodaeth

- 6.1 Nod y Cyngor yw sicrhau bod cymaint o wybodaeth â phosibl ar gael yn rhad ac am ddim. Os codir tâl am gyhoeddiadau neu wybodaeth y Cyngor a restrir yn y Cynllun Cyhoeddi, caiff y taliadau hyn eu hysbysebu ymlaen llaw.
- 6.2 Mae'r gyfraith yn galluogi i ffi gael ei chodi i ymateb i gais am wybodaeth heb ei chyhoeddi o dan rai amgylchiadau, er enghraifft os yw'n cymryd cryn dipyn o amser i leoli, adalw neu echdynnu gwybodaeth i ateb cais, neu i dalu am gostau cyfathrebu gwybodaeth i'r ymgeisydd, e.e. ar gyfer llungopïo, argraffu a phostio.
- 6.3 Os bydd tâl yn berthnasol, caiff ei gyfrifo yn unol â'r gyfraith a chanllawiau oddi wrth y Comisiynydd Gwybodaeth, a bydd yn cael ei egluro i'r ymgeisydd ymlaen llaw.
- 6.4 Ni chodir tâl am archwilio cofrestrau cyhoeddus a gedwir yn swyddfeydd y Cyngor nac am wybodaeth a gedwir mewn llyfrgelloedd cyhoeddus gan gynnwys yn ystod oriau gwaith arferol.

7. Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

- 7.1 Mae'r mwyafrif helaeth o'r wybodaeth a gyhoeddir gan y Cyngor ar gael yn ddwyieithog, yn unol â Safonau'r Gymraeg. Os gwneir cais am wybodaeth sydd heb ei chyhoeddi yn Gymraeg, bydd y wybodaeth yn cael ei darparu yn y ffurf y cafodd ei chynhyrchu'n wreiddiol, ond bydd y llythyr eglurhaol yn cael ei anfon yn Gymraeg.
- 7.2 Bydd y Cyngor yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn fformatau eraill. Mewn rhai achosion bydd tâl yn cael ei godi, a byddai hyn yn cael ei egluro i ymgeiswyr ymlaen llaw.

8. Cwynion

- 8.1 Mae Adran 45 y Cod Ymarfer Rhyddid Gwybodaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu cyngor a chymorth i bobl sy'n chwilio am wybodaeth, i nodi'r sail ar gyfer unrhyw wrthodiad o gais am wybodaeth, ac i roi cyngor ar sut i wneud cwyn.
- 8.2 Cewch gyngor ar sut i wneud Cwyn Cais am Wybodaeth oddi wrth yr Uned Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol ar 01443 864322 neu yn rhyddidgwybodaeth@caerffili.gov.uk.

8.3 Os nad yw'r ymgeisydd yn fodlon o hyd ar ôl ymdrin â'r Gŵyn Cais am Wybodaeth fewnol, mae ganddynt hawl statudol arall i gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth.

9. Polisiâu ac adnoddau cysylltiedig

9.1 Polisi Diogelu Data CBS Caerffili

9.2 Polisi Rheoli Cofnodion CBS Caerffili

9.3 Gwefan y Comisiynydd Gwybodaeth www.ico.org.uk

Atodiad 1 Pa gyfundrefn fynediad sy'n berthnasol?

